Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith gweithredu

# Gwneud yn siŵr y bydd gofal a chymorth da ar gael i bawb



## Beth mae'r daflen hon yn ei ddweud

Ni yw Llywodraeth Cymru.



Mae'r daflen hon yn sôn am ofal a chymorth i bobl yng Nghymru.

Mae gofal a chymorth yn gallu golygu llawer o bethau. Dyma rai ohonyn nhw:



- cymorth i fyw gartref



- cartrefi i bobl sydd angen llawer o ofal a chymorth



- gofal i blant.



Mae llawer o bethau yn newid yng Nghymru.

Er enghraifft, mae mwy o bobl yn byw'n hirach, ac angen gofal a chymorth.



Ac mae llai o arian i'w wario ar ofal a chymorth.



Ond mae pobl Cymru yn dal i fod angen gofal a chymorth da iawn.




Mae angen i ni wneud yn siŵr bod hynny'n digwydd.

Mae'r daflen hon yn sôn am y pethau sydd angen eu gwneud, yn ein barn ni, er mwyn i bobl gael gofal a chymorth da.

# Beth sydd angen ei wneud, yn ein barn ni


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**1.** Ni yw Llywodraeth Cymru. Mae angen i ni wneud mwy i wneud yn siŵr bod pobl yn cael gofal a chymorth da.



Er enghraifft, byddwn ni’n helpu pobl i ddeall

- beth yw gofal a chymorth da
- beth mae angen iddyn nhw ei wneud.



2. Rydyn ni eisiau i bobl sy'n cael gofal a chymorth gael llawer mwy o lais yn y pethau sy'n digwydd iddyn nhw.

Mae hyn yn golygu ein bod ni eisiau i bobl



- ddewis pa ofal a chymorth maen nhw'n eu cael



- cael rhywun i wrando arnyn nhw

- dewis beth maen nhw am ei wneud a chael help i wneud hynny



- cael eu trin mewn ffordd dda.



- Rydyn ni'n awyddus i ddal i siarad â phobl i glywed beth maen nhw ei eisiau.



**3.** Rydyn ni am ei gwneud yn haws i bobl gael yr holl ofal a chymorth y maen nhw eu hangen

Er enghraifft, efallai y bydd rhai pobl angen llawer math o gymorth.

Rydyn ni am ei gwneud yn haws iddyn nhw gael yr holl gymorth hwn.



**4.** Rydyn ni am i bobl gael help i gadw'n iach. Rydyn ni eisiau atal problemau cyn iddyn nhw ddechrau.



**5.** Rydyn ni eisiau i bobl fod yn ddiogel. Ac rydyn ni eisau i'r gofal a'r cymorth ddal i wella.



Rydyn ni eisiau i'r gwaith hwn gel ei wneud gan

- y grwpiau sy'n rhoi gofal a chymorth i bobl

- y bobl sy'n gyfrifol am ofal a chymorth ym mhob ardal leol.



**6.** Rydyn ni eisiau i staff gofal a chymorth fod â sgiliau da iawn. Rydyn ni am iddyn nhw allu gwneud y gwaith gorau sy’n bosib.



**7.** Rydyn ni am i bethau gael eu gwneud yn y ffordd orau fel nad yw amser ac arian yn cael eu gwastraffu.